


## Arolwg ESTYN

Dyma neges i'ch hatgoffa fod gwahoddiad i holl rieni a gwarcheidwaid yr ysgol i gyfarfod ag Estyn yn Neuadd yr ysgol am **3:45yp ar brynhawn dydd Llun nesaf, sef diwrnod cyntaf yr arolwg, yr 17eg o Fawrth.**

## *ESTYN Inspection*

*This is a message to remind you that all parents and guardians of the school are invited to meet with Estyn in the school hall at* ***3:45pm next Monday afternoon, which is the first day of the inspection, the 17th of March.***

---



## Eisteddfod Cylch Ystwyth

Cynhelir Eisteddfod Cylch Ystwyth ddydd Iau nesaf sef Mawrth 20fed.

Cynhelir y rhagbrofion yn y bore, yn cychwyn am 9 o'r gloch yn y lleoliadau canlynol:
Unawd canu – Yr Ysgol Gymraeg; Llefaru mamiaith – Ysgol Plascrug; Llefaru ail-iaith – Ysgol Padarn Sant; Alaw Gwerin a Cherdd Dant – Neuadd Fawr.

Bydd yr Eisteddfod ei hun yn cychwyn am 1:15yp yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ar gyfer unigolion; yna am 4:15yp ar gyfer cystadlaethau torfol.

Dyma ddolen i'r rhaglen 🖰 https://bit.ly/3QGuZ47

Sylwch fod y cystadlaethau ar dudalennau 6-8

## *Ystwyth Area Eisteddfod*

*The Area Eisteddfod will take place next Thursday - which is March 20th.*

*The prelims will be held in the morning, starting at 9 o'clock in the following locations:*
*Singing – Yr Ysgol Gymraeg;*
*Reciting (first language) - Ysgol Plascrug;*
*Reciting (2nd language) - Ysgol Padarn Sant; Folk Singing – Great Hall*

*The Eisteddfod itself will begin at 1:15pm in the Great Hall, Arts Centre for individuals; then at 4:15pm for group competitions.*

*Here is a link to the programme*
🖰 https://bit.ly/3QGuZ47

*The competitions are on pages 6-8*

---



## HMS

Dyma neges i'ch hatgoffa y bydd yr ysgol ar gau ddydd Gwener wythnos nesaf (21/03/2025) ar gyfer hyfforddiant staff. Mae'r dyddiad eisoes wedi ei rannu gyda chi yn y Calendr Hanner Tymor.

## *I.N.S.E.T Day*

*Here's a reminder that the school will be closed on Friday next week (21/03/25) for staff training. The date has already been shared with you in the Half Term Calendar.*

---

## Stroliwch a roliwch : 24/03 – 04/04

Cynhelir pythefnos Stroliwch a Roliwch wythnos i ddydd Llun. Gyda'r tywydd wedi ffeinhau, beth am gychwyn wythnos nesaf? Dywed y fenter: "Mae Stroliwch a Roliwch Sustrans yn ysbrydoli

## *Big Walk and Wheel : 24/03 – 04/04*

*The Big Walk and Wheel fortnight will be held a week Monday. With the weather improving, why not start next week? The initiative says: "Sustrans Big Walk and Wheel inspires pupils to make*

disgyblion i wneud gwahaniaeth iddyn nhw eu hunain, eu cymuned, a'u byd drwy wneud siwrneiau egnïol i'r ysgol."

Beth am fynd ati i leihau'r draffig ger yr ysgol wrth gerdded, beicio neu sgwtera?

*active journeys to school, improve air quality in their neighbourhood and discover how these changes benefit their world.."*

*Why not reduce the traffic near the school by walking, cycling or scootering?*

---



## Calendr Hanner Tymor

Mae Calendr Hanner Tymor newydd wedi'i greu: dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn.
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*A new half term calendar has been created. Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**14/03/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru







@YrYsgolGymraeg
Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James
01970 617613